# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir Gâr

Ionawr 2011



## Adroddiad Gwella Blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Ceir eglurhad o waith yr Archwilydd Cyffredinol yn Atodiad 1.) Mae'n adroddiad newydd y mae'n ofynnol i'r Archwilydd ei gyhoeddi ynglŷn â pha mor dda y mae cynghorau Cymru yn gwella eu gwasanaethau. Rydym wedi cael cymorth gan arolygwyr eraill fel Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn creu darlun o'r hyn y mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni; sut mae'n mynd ati i wneud hynny; a beth sydd angen iddo ei wneud i wella ei ddull o wella gwasanaethau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn cyflwyno'r darlun hwnnw a byddwn yn llunio adroddiad bob blwyddyn i roi gwybod i chi am y cynnydd y mae Cyngor Sir Gâr (y Cyngor) wedi'i wneud. Nid ydym wedi rhoi sylw i holl wasanaethau'r Cyngor. Rydym wedi canolbwyntio ar nifer fechan o feysydd, yn enwedig y pethau hynny y mae'r Cyngor wedi'u pennu'n fel ei flaenoriaethau ar gyfer gwella.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu yn eich ardal chi a byddwn yn rhoi cyfle i chi wneud hynny yn y dyfodol. Yn y cyfamser, hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch nodi'ch sylwadau drwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Non Jenkins a Helen Keatley, o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau gwella yng Nghymru (cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) â gofynion gwella Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff yn gweithio o dan adain Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.
Ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu ewch i'r wefan yn www.wao.gov.uk.

(h) Archwilydd Cyffredinol Cymru, 2011

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys


Pa fath o ardal yw Sir Gâr? 04

A yw Cyngor Sir Gâr yn cael ei reoli'n dda? 05

A yw Cyngor Sir Gâr yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella? 09

A yw Cyngor Sir Gâr yn gwasanaethu pobl yn dda? 12

- A yw Cyngor Sir Gâr yn cefnogi pobl mewn angen? 13
- A yw Cyngor Sir Gâr yn helpu pobl i ddatblygu? 19
- A yw Cyngor Sir Gâr yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo? 22

Beth ddylai Cyngor Sir Gâr ei wneud? 26

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn 28

Atodiad 2 - Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gâr a Chyngor Sir Gâr 30

Atodiad 3 - Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol 32

Atodiad 4 - Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Gâr 33

Atodiad 5 - Amcanion gwella Cyngor Sir Gâr 35

Atodiad 6 - Cyfeiriadau 36

# Pa fath o ardal yw Sir Gâr?

1 Hon yw'r drydedd sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n ffinio â Cheredigion yn y gogledd, Powys, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe yn y dwyrain, Môr Hafren yn y de a Sir Benfro yn y gorllewin. Mae gan Sir Gâr boblogaeth o tua 170,000. Er mai Llanelli yw tref fwyaf y sir o bell ffordd, mae Caerfyrddin, tref y sir, mewn lleoliad canolog.

2 Ar sail yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf (2009), poblogaeth Sir Gâr yw 180,767. Roedd yna 32,622 o blant (0-16 oed) yn byw yn y sir yn 2009, a 37,139 o bobl dros 65 oed. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth am 2008 yn dangos y disgwylir i boblogaeth Sir Gâr gynyddu i 211,557 erbyn 2033. Roedd mwy na saith mil o fusnesau wedi'u cofrestru yn Sir Gâr yn 2008. Roedd deunaw y cant o'r rhain yn y sector adeiladu, gyda 12 y cant yn y sector manwerthu.

3 Mae'r sir yn gymysgedd o ardaloedd cefnog a rhai sy'n ddifrifol ddifreintiedig, yn sgil dirywiad y diwydiannau trwm. Mae mwyafrif poblogaeth Sir Gâr, tua 65 y cant, yn byw mewn 20 y cant o arwynebedd y sir, yn ne a dwyrain y sir. Mae nifer o'r wardiau hyn ymhlith yr 20 y cant tlotaf yng Nghymru, a dyma ble mae pum 'Ward Cymunedau'n Gyntaf' penodol y sir wedi'u lleoli. Mae gan ardaloedd mwy gwledig y sir nodweddion o amddifadedd hefyd, fel cymunedau ynysig, cysylltiadau trafnidiaeth gwael, dirywiad mewn economïau amaethyddol gwledig a chyflogau isel. Mae cyfran is o bobl oedran gweithio a chyfran uwch o bobl oed ymddeol nag sydd yng Nghymru'n gyffredinol.

4 Yn 2009, roedd bron i hanner poblogaeth Sir Gâr yn gallu siarad Cymraeg o gymharu ag ychydig dros chwarter o gyfanswm poblogaeth Cymru.

5 Ceir rhagor o wybodaeth am Sir Gâr a'r Cyngor yn Atodiad 2.

siaradwyr cymraeg
50%
/////////////

poblogaeth
180,767
/////////////

32,622 yn 0-16 oed
37,139 yn >65 oed
/////////////

# A yw Cyngor Sir Gâr yn cael ei reoli'n dda?

6 Mae rheoli sefydliad mor fawr gyda'i amrywiaeth eang o wasanaethau'n dasg anodd a chymhleth. Ym mis Gorffennaf llynedd, lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru Adroddiad Asesiad Corfforaethol sy'n nodi pa mor dda y rheolir y Cyngor. Gwelir crynodeb o'r adroddiad yn Atodiad 3. Os ydych am ddarllen yr adroddiad cyfan, ewch i wefan Swyddfa Archwilio Cymru yn www.wao.gov.uk.

7 Casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd bod trefniadau'r Cyngor a'i arweiniad cryf yn ei roi mewn safle da i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol os bydd y Cyngor cyfan yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau gwell i bobl Sir Gâr o fewn adnoddau cyfyngedig.

8 Hynny yw, mae'r Cyngor yn awyddus iawn i wella ac yn canolbwyntio'n gryf ar hynny. Mae'n paratoi'n dda ar gyfer y cyfnodau anodd sydd o'i flaen. Ond, rhaid iddo fod yn realistig ynghylch beth y gall ei wneud a chanolbwyntio ar effeithiau ei waith ar bobl leol.

9 Mae arweinwyr y Cyngor wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd ac maent yn gwella rhai o'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn rheoli ei bobl a'i adeiladau. Rhai o brif gryfderau'r Cyngor yw ei drefniadau rheoli ariannol da a'i ymrwymiad i adfywio a gweithio mewn partneriaeth.

10 Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol, mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y gorau o'u holl adnoddau. Mae Cynghorwyr Sir ar draws pob plaid wleidyddol, a phartneriaid, wedi bod yn nodi blaenoriaethau, opsiynau a syniadau ar gyfer arbed arian. Mae'r Cyngor wedi dechrau datblygu sut y mae'n dangos fod ei gamau gweithredu'n gwneud gwahaniaeth i bobl Sir Gâr a'r bobl sy'n defnyddio'i wasanaethau. Mae'n cydnabod yr angen i reoli grantiau, pobl TGCh a thir ac eiddo'n well.

11 Cadarnhaodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei Lythyr Blynyddol i'r Cyngor ar 30 Tachwedd 2010, bod datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer 2009-10 yn foddhaol ar y cyfan a bod arian wedi'i wario yn briodol. Fodd bynnag, nododd yr archwilydd a benodwyd fod angen i'r Cyngor reoli asedau sefydlog yn well. Mae Llythyr Blynyddol 2010 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Atodiad 4[1].

12 Yn 2009-10 gwariodd y Cyngor tua £550 miliwn ar wariant refeniw a thua £75 miliwn ar wariant cyfalaf.

13 O ganlyniad i'r hinsawdd ariannol, mae pob gwasanaeth cyhoeddus fwy neu lai yn wynebu toriadau ariannol. Cyllid refeniw yw'r arian y mae cynghorau'n ei wario ar gynnal a rheoli eu gwasanaethau. Bydd Cyngor Sir Gâr yn wynebu gostyngiad o tua £3.1 miliwn (1.3 y cant) yn y cyllid refeniw mae'n ei dderbyn gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12. Ar ôl cynnwys chwyddiant hefyd, mae hynny'n golygu y bydd gostyngiad mewn termau real o £7.9 miliwn (3.15 y cant). Gan fod Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi'r cyllidebau hyn am un flwyddyn ar y tro, mae'n anodd bod yn gwbl sicr o'r effaith dros y tymor canolig. Mae cynlluniau gwario Llywodraeth y Cynulliad ei hun yn dangos y bydd cyfanswm y gwariant refeniw ar lywodraeth leol 3.3 y cant yn llai yn 2014-15 nag oedd yn 2010-11 (gostyngiad mewn termau real o 6.7 y cant).

14 Cyllid cyfalaf yw'r arian y mae cynghorau'n ei wario ar seilwaith, er enghraifft, adeiladau newydd a chyfarpar newydd. Disgwylir i'r arian cyfalaf a fydd ar gael i'r Cyngor ostwng yn sylweddol. Gan fod cynghorau'n gwneud ceisiadau am gyllid cyfalaf, nid oes modd gwybod i sicrwydd faint y bydd pob Cyngor yn ei dderbyn. Bydd cyfanswm y cyfalaf a fydd ar gael i gynghorau'n gostwng 14 y cant yn 2011-12 (gostyngiad mewn termau real o

1 Mae yna fwy o wybodaeth am yr hawl i weld cyfrifon y cyngor yn nhaflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Eich Hawliau yng Nghymru: Cyfrifon y Cyngor*, sydd ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk.

18.5 y cant). Nid oes yna unrhyw ffigurau swyddogol ar gyfer gwariant cyfalaf llywodraeth leol ar ôl 2011-12, ond mae'n debygol o gyd-fynd â gostyngiad cyffredinol yng ngwariant cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad, a fydd yn cael ei dorri tua 34 y cant (tua 40 y cant mewn termau real) rhwng 2010-11 a 2014-15.

15 Mae'r gostyngiadau hyn yn cyd-fynd â rhagdybiaethau'r Cyngor, sy'n adlewyrchu cynllunio gofalus. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a gwella ei gynlluniau ariannol tymor canolig a sut i wneud y defnydd gorau o'r arian sydd ganddo. Yn ystod yr Haf a'r Hydref, mae'r Cyngor wedi gwneud mwy o waith ar asesu ei ofynion adnoddau refeniw tebygol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn amcangyfrif , gyda'r gostyngiad mewn ffrydiau incwm, y bydd angen arbed tua £29 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

16 Mae cyllideb y Cyngor wedi'i rheoli'n dda yn y blynyddoedd diwethaf gyda chyllidebau cytbwys yn cael eu cyflawni ar lefel y gyfarwyddiaeth a lefel corfforaethol. Mae hyn yn rhoi'r Cyngor mewn safle cadarn wrth symud ymlaen i gyfnod o newid sylweddol a thoriadau ariannol gan fod ganddo enw da am sicrhau bod ei wasanaethau'n cael eu darparu gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael â heriau go iawn a bydd yn rhaid i gynghorwyr wneud penderfyniadau anodd os yw am wneud yr arbedion sy'n angenrheidiol.

17 Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio ar amrywiaeth o opsiynau i sicrhau'r arbedion angenrheidiol, sy'n galonogol. Mae'r cynigion yn ymwneud yn bennaf â phedwar maes cyffredinol:

- gwario llai ar feysydd fel goramser a ffonau symudol;
- gweithredu, trwy gytundeb, canlyniadau ei ymarfer gwerthuso swyddi, diswyddo gwirfoddol a thelerau ac amodau llai hael i staff;
- cyflwyno ffyrdd newydd, mwy effeithlon, o ddarparu gwasanaethau cyfredol er mwyn arbed arian a gwneud gwelliannau; ac
- adolygu'r ddarpariaeth barhaus o wasanaethau anstatudol a'r lefel gwasanaeth a ddarperir i wasanaethau statudol, gan gynnwys sut y caiff gwasanaethau eu darparu.

18 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei gynigion, sy'n cael eu datblygu'n llawn ar hyn o bryd, yn arwain at ddigon o arbedion cost i gyflawni cyllideb refeniw cytbwys dros y tair blynedd nesaf. Bydd angen i'r Cyngor gwblhau ei gynlluniau ar ddechrau 2011.

19 Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi'r angen am gyllid sylweddol i wella'r seilwaith, datblygu gwasanaethau newydd a diweddaru cyfleusterau cyfredol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwario tua £70 miliwn ar gyfartaledd ar wariant cyfalaf. Bydd y gostyngiad tebygol mewn cyllid cyfalaf o Lywodraeth y Cynulliad yn effeithio ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.

20 Cynhaliodd y Cyngor weithdai i Gynghorwyr yn gynharach yn y flwyddyn i flaenoriaethau'r opsiynau a'r syniadau ar gyfer canfod yr arbedion hyn. Ymgynghorwyd â phob grŵp gwleidyddol ynglŷn â syniadau am feysydd lle gellir gwneud arbedion. Bydd Cynghorwyr yn ystyried yr opsiynau hyn ar ddechrau 2011 cyn gwneud rhai o'r penderfyniadau anoddaf y maent wedi gorfod eu gwneud ynglŷn â ble gellir sicrhau'r arbedion hyn.

21 Fel cam cyntaf pwysig, dylai'r Cyngor geisio adfer mwy o'r dreth gyngor sy'n ddyledus. Mae'r ôl-daliadau treth gyngor wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ac ar ddiwedd mis Mawrth 2010, roeddynt tua £5 miliwn – un o'r symiau uchaf yng Nghymru. Ar gyfartaledd, roedd lefel y dreth gyngor a oedd yn ddyledus ar bob cartref y gellid codi tâl arno ychydig yn uwch na chyfartaledd

Cymru. Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r ôl-daliadau hyn ymhellach er mwyn gwella llif arian a sicrhau ei fod yn derbyn yr holl incwm sy'n ddyledus iddo er mwyn gallu cynnal ei wasanaethau a chanfod yr arbedion angenrheidiol.

22 Fodd bynnag, ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r Cyngor wedi lleihau ei ordaliadau budd-daliadau tai a threth gyngor i bobl ac wedi cynyddu swm y ddyled ordaliadau y mae'n ei adfer. Yn 2008-09, yn sgil trefniadau da'r Cyngor, llwyddwyd i ordalu £177,000 yn llai o fudd-daliadau nag yn y flwyddyn flaenorol, gyda chyfran y gordaliad mewn gwariant budd-daliadau yn gostwng o 5.35 y cant i 4.7 y cant.

23 Yn olaf, mae'r Cyngor yn dibynnu ar oddeutu £80 miliwn o incwm grant bob blwyddyn. Adroddodd yr archwilydd a benodwyd yn 2008-09 fod angen i'r Cyngor wella'r gwaith o reoli'r prosiect grantiau trwy sicrhau:

- y cytunir ar ddull corfforaethol i reoli prosiect;
- bod gan reolwyr prosiect y sgiliau sydd eu hangen i reoli'r cynlluniau grant;
- bod yna systemau ar waith i fonitro perfformiad rheolwyr prosiect; a
- bod rheolwyr prosiect yn atebol am berfformiad gwael.

24 Bydd canlyniadau gwaith archwilio i asesu a yw'r trefniadau grant wedi gwella'n cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ar ddechrau 2011.

25 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor yn dweud mai gweithio gyda phartneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau a gwneud arbedion yw un o'i saith flaenoriaeth bwysicaf ar gyfer gwella yn 2010-11. Yn yr hinsawdd ariannol gyfredol, mae hwn yn amcan gwella priodol i'r Cyngor. Ond mae angen i'r Cyngor nodi amcangyfrif o'i darged arbedion yn fwy clir yn ei Gynllun. Mae'r Cynllun wedi ymrwymo'n llawn i gydweithio a gwaith partneriaeth, yn arbennig trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n goruchwylio'r gwaith o baratoi Strategaeth Gymunedol Integredig.

26 Rydym wedi cynnal gweithdy gyda staff y Cyngor i helpu'r Cyngor i ddangos sut mae ei benderfyniadau a'i gamau gweithredu'n gwneud gwahaniaeth i ddinasyddion a defnyddwyr ei wasanaethau. Bydd y Cyngor yn cynnal mwy o weithdai yn y misoedd i ddod a chredwn y gallai Cynghorwyr ac uwch reolwyr elwa ar gymryd rhan yn y gweithdai hyn.

27 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd i sicrhau bod staff yn cael eu talu'n deg, yn unol â'r gyfraith ar gyflog cyfartal. Mae hefyd yn edrych am arbedion o ran y ffordd y caiff staff eu talu ar hyn o bryd mewn perthynas â theithio, cynhaliaeth, bonysau a goramser. Mae wedi rhoi cyfle i'r staff wneud cais am ddiswyddo gwirfoddol, er mai dim ond nifer bychan o'r staff sydd wedi manteisio ar y cyfle hwn ac nid yw'n glir ar hyn o bryd sut mae hyn yn effeithio ar gynlluniau arbedion y Cyngor.

28 Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y mae'n rheoli pobl ac mae'n datblygu ffyrdd i helpu rheolwyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf sydd eu hangen arnynt i reoli a chynorthwyo staff yn well. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo lawer mwy i'w wneud a bod angen iddo gytuno ar Strategaeth Rheoli Pobl a ddylai fod o gymorth i bennu cyfeiriad clir ar gyfer y gwasanaeth a'i brif flaenoriaethau ar gyfer rheoli pobl yn well.

29 Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd ei wasanaeth TGCh wrth gynorthwyo i wella gwasanaethau a sicrhau effeithlonrwydd. Mae wedi dechrau adolygiad o'r gwasanaeth hwnnw i sicrhau ei fod yn cyfrannu at yr amcanion hyn yn effeithiol ac effeithlon. Mae'n gwaith wrth ddarparu her allanol i adolygiad y Cyngor yn awgrymu bod y

Cyngor yn dod i gasgliadau synhwyrol am ail-lunio'r gwasanaeth a'i wneud yn addas i'w ddiben wrth fodloni heriau'r dyfodol. Rydym yn cytuno gyda chanfyddiadau drafft y Cyngor bod cyfleoedd sylweddol i'r gwasanaeth ddatblygu'r rôl sydd ganddo fel 'galluogwr corfforaethol' a darparu'r arbedion sydd eu hangen gan y gwasanaeth TGCh yn ystod y tair blynedd nesaf. Bydd llwyddiant yr adolygiad hwn yn bwysig wrth gynorthwyo gyda'r hinsawdd ariannol anodd sy'n wynebu'r awdurdod.

30 Un agwedd ar wasanaethau'r Cyngor, sy'n gyffredin yn ei holl ddarpariaeth gwasanaeth yw'r Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i'w helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr awdurdodau sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n bennaf gyfrifol am eu hystod a'u safon, gan weithio'n unol â fframwaith a chanllawiau statudol y Bwrdd. Disgwylir i bob awdurdod lleol ddarparu Adroddiad Monitro Blynyddol (yr Adroddiad) i'r Bwrdd sy'n esbonio sut mae'r cynllun wedi'i weithredu. Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd gynnig cyngor ar sut y gallai Cyngor wella'i drefniadau lleol. Mae'r Bwrdd yn cynnal ei adolygiadau ei hun hefyd er mwyn asesu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a hyrwyddo gwelliant.

31 Yn 2009, roedd 49.4 y cant o boblogaeth Sir Gâr yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â 25.6 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae hyn ymhlith yr uchaf o bob awdurdod lleol yng Nghymru.

32 Clodforodd y Bwrdd y Cyngor am ei allu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cynhwysfawr a chyson trwy ei wasanaeth 'Galw Sir Gâr'. Croesawodd y Bwrdd allu'r Cyngor hefyd i ddarparu data ar sgiliau ieithyddol staff. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu ei Gynllun Iaith Gymraeg ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd wedi canfod ei fod wedi cyrraedd targedau'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd hefyd wedi canfod nad yw gwefan y Cyngor yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ac mae yna rai problemau gyda darpariaeth dogfennau etholiadol Cymraeg. Bydd disgwyl i'r Cyngor gyflwyno cynllun gwella i fynd i'r afael â'r materion hyn.

# A yw Cyngor Sir Gâr yn gwybod beth sydd angen iddo ei wneud i wella?

33 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i bob cyngor gyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella beth mae'n ei wneud a sut mae'n ei wneud. Rhaid iddynt hefyd gyhoeddi rhestr o'r prif bethau y maent yn ceisio eu gwella bob blwyddyn – eu hamcanion gwella. Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor wedi penderfynu canolbwyntio ar saith amcan. Mae'r Cyngor wedi cysylltu'r saith amcan hyn â'i gytundeb canlyniadau gyda Llywodraeth y Cynulliad, strategaeth gymunedol Sir Gâr, cynlluniau busnes gwasanaethau'r Cyngor a'i systemau rheoli perfformiad. Dyma flwyddyn gyntaf fframwaith adrodd newydd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Amcanion Gwella. Dyma'r flwyddyn gyntaf hefyd lle'r oedd cynghorau'n gorfod cytuno ar Gytundebau Canlyniadau gyda Llywodraeth y Cynulliad. Gwnaeth Cyngor Sir Gâr hefyd eu cynnwys yn ei Gynllun Gwella cyhoeddedig. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y fframwaith newydd hwn, mae'n anochel fod cyfleoedd i ddysgu o brofiadau a gwella'r ffordd y penderfynir ar yr elfennau amrywiol hyn, sut maent yn cyd-fynd â'i gilydd a sut maent yn cael eu cyhoeddi. Nodir rhai o'r cyfleoedd dysgu hyn isod.

34 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor yn disgrifio'r saith amcan gwella mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol rannau o'r Cynllun. Rydym yn rhoi enghreifftiau penodol o sut mae'r gwahaniaethau hyn yn gwanhau eglurder amcanion y Cyngor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**Nodir yr amcanion gwella ar dudalennau 8 a 9 o'r Cynllun Gwella (y Cynllun)[2] isod:**

- gweithio gyda'n partneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau ac arbed arian;
- cydweithio i wella iechyd a lles pobl Sir Gâr a chanolbwyntio yn ystod 2010-11 ar sicrhau cynnydd o ran gwella ansawdd tai drwy gyflawni'r rhaglen waith ar gyfer Safon Tai Sir Gâr;
- byddwn yn parhau i ddiogelu ein hoedolion a'n plant sy'n agored i niwed;
- byddwn yn cefnogi pobl hŷn i chwarae eu rhan ym mywyd ein cymunedau a'u helpu i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, lle bynnag y bo modd;
- gweithio tuag at lwyddo i fod yn sir sy'n niwtral o ran carbon a gwella effeithlonrwydd ynni;
- ymateb yn gadarn i'r hinsawdd economaidd drwy gefnogi busnesau a sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn hawlio'r holl hawliadau y maent yn gymwys i'w cael; a
- moderneiddio safon adeiladau ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r unfed ganrif ar hugain a bod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau'n addas i'r gymuned a wasanaethir ganddynt.

2 Gellir dod o hyd i'r Cynllun ar wefan y Cyngor ar www.carmarthenshire.gov.uk/English/council/performance/Documents/Improvement%20Plan%20(Part%201)%202010-11%20(Updated).pdf (Saesneg yn unig)

35 Mae'r Cynllun sydd wedi'i gyhoeddi hefyd yn wahanol i'r Cynllun y cytunodd y Cyngor arno ar 14 Gorffennaf 2010. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddinasyddion fod yn glir ynglŷn â blaenoriaethau a thargedau'r Cyngor ac yn ei gwneud yn anodd gwneud y Cyngor yn atebol am eu cyflawni. O fewn systemau rheoli perfformiad y Cyngor, mae rhai o'r canlyniadau dymunol y mesurir llwyddiant yn eu herbyn yn wahanol i'r rhai yn y Cynllun a gyhoeddwyd. Er ei bod yn briodol addasu targedau a mesurau perfformiad wrth i wybodaeth newydd fod ar gael, mae'n rhaid rhoi gwybod i gynghorwyr, staff a'r cyhoedd am newidiadau o'r fath ar unwaith. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud y newidiadau hyn yn glir i Gynghorwyr yn ei Bwyllgor Craffu ar Bolisi ac Adnoddau, ond argymhellwn fod y penderfynwyr hefyd yn cael gwybod am y newidiadau'n llawn.

36 Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella cyn gynted â bod hynny'n ymarferol wedi dechrau mis Ebrill bob blwyddyn. Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ym mis Gorffennaf 2010 fel rhan o'i Gynllun Gwella ar gyfer 2010-11. Gall y cyhoedd weld y cynllun hwn ar wefan y Cyngor ac fel copi caled.

37 Gweithiodd y Cyngor yn dda eleni i rannu ei Gynllun gyda'r bobl leol ar gyfnod cymharol gynnar. Fodd bynnag, bydd angen iddo gyhoeddi ei amcanion gwella'n gynt y flwyddyn nesaf.

38 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i'r Cyngor gynhyrchu adolygiad blynyddol o'i gyraeddiadau a'i gynnydd o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Felly, cyhoeddodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol (yr Adroddiad)[3] ym mis Hydref 2010 er mwyn rhoi sylwadau ar ei berfformiad o fis Ebrill 2009 tan fis Mawrth 2010.

39 Mae'r Adroddiad yn bodloni'r gofynion statudol ac mae'n gynhwysfawr iawn ei gynnwys, gan ddisgrifio sut mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd ar gamau gweithredu, a'i gyraeddiadau allweddol yn erbyn y saith maes perfformio thematig. Mae hefyd yn cynnwys cyfraniadau ei sefydliadau partner, ac yn mynd i'r afael yn agored â'r meysydd y bydd angen iddo wella arnynt yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'r Adroddiad hefyd yn annog defnyddwyr gwasanaethau i ymateb i ddarpariaeth gwasanaethau penodol lle y bo'n briodol ac yn fwy cyffredinol, i'w gynnwys cyffredinol. Darperir dolenni uniongyrchol at adroddiadau perfformiad gan enwi'r swyddogion cyfrifol sy'n atebol.

40 Fodd bynnag, mae'r data perfformiad a ddarperir ar ddechrau'r adroddiad braidd yn ddryslyd ac ni chysylltir perfformiad a chamau gweithredu â chanlyniadau'n gyson. Mae rhai gwasanaethau, megis Tai, yn dangos cysylltiadau clir rhwng camau gweithredu a chanlyniadau; tra bod gwasanaethau eraill dim ond yn rhestru beth sydd wedi'i wneud heb nodi a yw bywydau pobl wedi gwella o ganlyniad i'r rhain.

41 Os yw'r Cyngor yn glir ynghylch sut y mae'n gobeithio y bydd pobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn ei gymuned ar eu hennill o'r gwelliannau hyn, bydd hi'n haws i'r Cyngor ddangos y flwyddyn nesaf beth y mae wedi'i gyflawni.

42 Mae'r targedau a osodwyd gan y Cyngor yn creu darlun cymysg. Mae wedi gosod targedau a mesurau gwell ar gyfer rhai amcanion gwella nag eraill, gyda'i amcan o wella'r diogelwch i oedolion sy'n agored i niwed yn cynnwys y mesurau gwanaf. Nid yw rhai o'r mesurau'n hawdd i'w deall bob amser. Gallai mesurau eraill fod yn fwy uchelgeisiol ac nid yw rhai ohonynt yn berthnasol i'r amcanion gwella neu maent yn y lle anghywir yn y Cynllun. Rhoddir mwy o fanylion ar y rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

3 Gellir gweld yr Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor yn www.sirgaerfyrddin.gov.uk/cymraeg/cyngorademocratiaeth/perfformiadycyngor/Pages/Home.aspx

43 Er y gellir cael gafael ar wybodaeth yn hawdd o fewn systemau rheoli perfformiad y Cyngor ei hun, gallai'r Cynllun amlinellu enghreifftiau o berfformiadau o'r gorffennol a'r presennol fel y maent yn berthnasol i'w uchelgeisiau. Gallai hefyd gynnwys gwybodaeth yn dangos sut mae'r Cyngor yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Er enghraifft, mae'n cymharu'n ffafriol mewn nifer o feysydd, fel gwasanaethau plant, cyrraedd ei safon ansawdd tai a lleihau ei ôl-troed carbon.

44 Edrychwyd hefyd ar ba mor dda oedd y Cyngor yn ymgysylltu â phobl leol a'r rhai sy'n gweithio gydag ac i'r Cyngor, i benderfynu ar beth ddylai gael blaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn ymdrechu'n galed i gael barn staff, dinasyddion, partneriaid a sefydliadau eraill i'w helpu i gynllunio a gwella'i wasanaethau ac i benderfynu ar ei flaenoriaethau. Mae'n gwybod hefyd bod angen iddo ddadansoddi'n well a gwneud defnydd gwell o'r holl safbwyntiau y mae'n eu casglu i gynorthwyo i wneud y gwelliannau a'r arbedion y mae'n ceisio'u gwneud.

45 Mae'r Cyngor yn ei hystyried hi'n bwysig ymgynghori â'i drigolion. Mae'n parhau i allu recriwtio pobl yn llwyddiannus i'w Banel Dinasyddion ac mae'n 'diwygio' aelodau'r Panel o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gynrychioli'r boblogaeth. Trefnir y Panel ar y cyd rhwng y Cyngor, Heddlu Dyfed-Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sydd hefyd yn dangos gwaith partneriaeth da. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cynnal arolwg annibynnol arall o drigolion yn 2010-11 er mwyn sicrhau bod ei ddata ar farn trigolion o wasanaethau'r Cyngor yn cael ei ddiweddaru. Mae gan y Cyngor fframwaith a safonau corfforaethol i gynnal ymgynghoriad cyffredinol, ond gellid gwella ansawdd a chysondeb yr adborth i'r cyhoedd sy'n cymryd rhan. Dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwasanaethau'n gallu dangos bod newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaethau wedi'u gwneud yn sgil canfyddiadau a geir o ddigwyddiadau ymgynghori.

46 Mae'r gofal a roddir gan y Cyngor i gwsmeriaid yn dda ar y cyfan. Mae wedi datblygu nifer o systemau sy'n eu gwneud hi'n haws i'w gwsmeriaid a'i drigolion gysylltu â'r Cyngor a chael mynediad i'w wasanaethau. Mae wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwella ei ganolfannau cyswllt a'i wasanaethau cymorth, sydd wedi arwain at gyfradd uchel o foddhad gan gwsmeriaid ynglŷn â sut yr ymdrinnir â'u hymholiadau. Mae ei wasanaeth Llinell Gofal, i aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed, wedi bod yn arbennig o effeithiol. Er hynny, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod yna le i wella – rhaid sicrhau bod safonau prosesu galwadau'n gyson drwy'r holl wasanaethau a rhaid cael yr adnoddau i sicrhau bod y canolfannau cyswllt yn gallu cynnal gwasanaeth da mewn cyfnodau o argyfwng neu fentrau newydd mawr.

47 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod rhaid gwella ei ddull cyfredol o fynd i'r afael â phrosesu cwynion a bydd yn gweithredu'r argymhellion a wnaed gan adolygiad 2009 yr Ombwdsmon o weithdrefnau ymgynghori cynghorau Cymru. Mae'n bwriadu datblygu tîm corfforaethol a fydd yn cydgysylltu ac yn monitro a gwerthuso cwynion yn agos, gan nodi tueddiadau a sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i'r cwynion yn briodol.

48 Yn olaf, holwyd pa mor dda y bydd cynlluniau'r Cyngor yn ei gynorthwyo gyda'i ymdrechion i weithio'n well ac a fydd ganddo'r adnoddau i gyflawni'r gwelliannau hyn. Er y bydd y Cyngor yn debygol o allu dangos y flwyddyn nesaf a yw wedi cyflawni'r mesurau a'r targedau y mae wedi'u gosod i'w hunan, mae'n debyg y bydd yn cael anhawster dangos a yw pobl wedi elwa o ganlyniad i hyn. Gan eu bod wedi'u cynnwys yng nghynlluniau busnes a systemau rheoli perfformiad y Cyngor, mae'n debygol y bydd y Cyngor yn gallu cyflawni'r gwelliannau a bennwyd ganddo yn y Cynllun ar gyfer 2010-11. Ond nid yw'n glir a fydd yn gallu fforddio rhai o'r canlyniadau y mae'n disgwyl eu cael o'r gwelliannau hyn, fel 'cynnal gwasanaethau' ac 'ail-fuddsoddi arbedion'.

# A yw Cyngor Sir Gâr yn gwasanaethu pobl yn dda?

49 Rydym yn gobeithio defnyddio Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol i greu darlun graddol o ba mor dda mae'r Cyngor yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn archwilio gwasanaethau'r Cyngor bob blwyddyn a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella mewn perthynas â thair agwedd bwysig ar fywyd yn Sir Gâr. Credwn fod yr agweddau hyn, gyda'i gilydd, yn cynnwys y prif bethau y mae cynghorau'n eu gwneud, sef:

- helpu i gefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo.

50 Yn asesiad eleni rydym wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn cyflawni'r agweddau hyn ar hyn o bryd. Rydym wedi edrych ar y saith amcan, ond nid mewn unrhyw fanylder, a byddwn yn edrych arnynt mewn mwy o fanylder yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Yn gyffredinol, os yw'r Cyngor wedi dewis gwneud pethau'n flaenoriaeth, yna dylai allu eu mesur o ran sut y maent yn effeithio ar bobl leol.

# A yw Cyngor Sir Gâr yn cefnogi pobl mewn angen?

51 Dangosodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2008) fod pum ardal yn Sir Gâr ymhlith y 10 y cant o wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd y pum ardal yn ne-ddwyrain y sir.

52 Roedd disgwyliad oes menywod yn Sir Gâr yn 81.3 o flynyddoedd yn 2006-08, sydd ychydig yn llai na chyfartaledd Cymru o 81.4 o flynyddoedd. Roedd disgwyliad oes dynion ar gyfer yr un cyfnod yn 76.5 o flynyddoedd, sy'n llai na chyfartaledd Cymru o 77.0 o flynyddoedd. Yn 2008-09, roedd gan y sir un o'r cyfraddau isaf o bobl hŷn a oedd yn cael eu cynorthwyo yn y gymuned. Mae thua 23.9 y cant o boblogaeth Sir Gâr o oed ymddeol, tra bo'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan yn 21.4 y cant.

53 Yn 2007, roedd lefel y beichiogrwydd ymysg pobl ifanc yn eu harddegau ymhlith yr isaf yng Nghymru, gyda thua 36 o bob 1,000 merch 15 i 17 oed yn feichiog. Yn ystod yr un adeg, cyfradd Cymru ar gyfartaledd oedd 44.9 o ferched beichiog.

54 Dangosodd Arolwg Iechyd Cymru o oedolion nad oedd iechyd meddwl a lles pobl yn Sir Gâr ar gyfer 2007-08 yn wahanol iawn i gyfartaledd Cymru. Dangosodd cyfradd gordewdra oedolion ar gyfer 2007-08 fod cyfradd y sir fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, tra bo'r gyfradd o oedolion a oedd yn ysmygu yn yr un flwyddyn yn is na chyfartaledd Cymru ac yn un o'r cyfraddau isaf yn gyffredinol.

55 Mae nifer y tai fforddiadwy a ddarperir yn Sir Gâr wedi lleihau rhywfaint ers 2007-08 ac wedi aros ar lefel o hanner cyfartaledd Cymru. Yn 2008-09, roedd y gyfradd yn Sir Gâr ymhlith yr isaf yng Nghymru. Yn 2008-09, roedd y gyfradd ddigartrefedd yn Sir Gâr ymhlith yr uchaf o bob un o 22 awdurdod lleol Cymru.

56 Rôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yw cynnal asesiadau a gwneud penderfyniadau proffesiynol ynghylch gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, gan hyrwyddo gwelliant ymhlith darparwyr y gwasanaethau. Mae'n gweithio ar ran Gweinidogion Cymru, ond mae yna nifer o fesurau diogelu ar waith i sicrhau ei hannibyniaeth. O dan ddeddfwriaeth newydd, mae fframwaith newydd ar waith ar gyfer arolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, eu gwerthuso a'u hadolygu.

57 Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad hunanasesu ar ba mor dda y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Yna, bydd AGGCC yn cynnal adolygiad a dadansoddi tystiolaeth i ategu'r adroddiad, gan gynnwys tystiolaeth gan reoleiddwyr ac arolygwyr eraill. O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, ceir arolygiad unigol a chynllun adolygu ar gyfer pob cyngor. Cyhoeddir llythyr bob blwyddyn gan yr AGGCC yn nodi'r dadansoddiad a'r cynllun arolygu ac adolygu.

58 2009-10 yw blwyddyn lawn gyntaf y fframwaith newydd gyda'r nod o sefydlu llinell sylfaen o berfformiad cyfredol. Nodir yn gryno bwyntiau allweddol y llythyr a anfonwyd ym mis Rhagfyr 2010 isod. Mewn perthynas â gwasanaethau oedolion, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth gynorthwyo pobl hŷn a hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae ei ganolfan gyswllt newydd hefyd wedi gwella trefniadau mynediad ar gyfer pobl hŷn. Mae datblygiadau newydd wedi bod i wasanaethau, yn enwedig ar gyfer pobl hŷn, ac mae mwy o oedolion yn Sir Gâr yn derbyn taliadau uniongyrchol ac yn elwa ar dechnoleg gynorthwyol. Yn bwysicaf oll, mae gan y Cyngor gynlluniau i drawsnewid gwasanaethau pobl hŷn tra'n datrys anawsterau ariannol hirdymor sy'n gysylltiedig â gofal cymunedol.

59 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn derbyn bod angen iddo barhau i wella gwasanaethau i oedolion, er y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma. Mae achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi bod ymysg yr uchaf yng Nghymru yn gyson ac er bod gwelliannau wedi bod eleni, bydd angen cynnal hyn. Yn yr un modd, mae gwaith pellach ar y gweill i wella prydlondeb ac ansawdd asesiadau ac adolygiadau. Mae recriwtio, arfarnu a datblygu staff yn hollbwysig i sicrhau gwasanaeth cyson o ansawdd uchel ac mae angen cynnal y gwaith sydd wedi'i ddechrau i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol hyn. Mae adolygiad ar wahân yn cael ei gynnal ar anableddau dysgu sy'n faes lle mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i foderneiddio a gwella ei wasanaethau. Mae gwaith yn cael ei wneud i integreiddio gwaith y Cyngor a'r gwasanaeth iechyd yn y maes hwn ac mae disgwyl iddo arwain at wasanaeth mwy cydlynol ac effeithiol a hefyd ganfod ffyrdd o sicrhau gwell gwerth am arian drwy gydweithio.

60 Cwblhaodd AGGCC arolygiad o drefniadau amddiffyn oedolion a nododd rai cryfderau ond dywedodd nad oedd gweithdrefnau amddiffyn oedolion yn darparu ymateb effeithiol cyson ym mhob cam o'r broses amddiffyn oedolion eto. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun gwella mewn ymateb i'r arolygiad hwn sy'n cael ei fonitro gan AGGCC.

61 Mae cynllunio ariannol da yn bwysig oherwydd pwysau'r galw cynyddol ar wasanaethau. Mae'r Cyngor wedi bod yn buddsoddi adnoddau ychwanegol sylweddol yn ei wasanaethau gofal cymdeithasol, yn enwedig y rhai hynny ar gyfer oedolion, bob blwyddyn am y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae amheuon gwirioneddol ynghylch a ellir cynnal y lefel gyfredol hon o fuddsoddiad ac ni fydd y gwasanaeth yn gallu bodloni'r galw oni bai bod cyllidebau'n cael eu rheoli a bod ffyrdd mwy arloesol o ddarparu gwasanaethau'n cael eu cyflwyno.

62 Mae'r darlun yn llawer mwy cadarnhaol o ran gwasanaethau plant. Mae arweiniad effeithiol a dull cynhwysol o wella. Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth dda i wybodaeth briodol ac mae ymateb cyson a phrydlon i atgyfeiriadau. Mae asesiadau cychwynnol a chraidd yn brydlon ac mae'r gwaith cynllunio ac adolygu, mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, yn effeithiol. Mae gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda gyda pherfformiad da cyson a gwelliannau i'w gweld ac mae amrywiaeth gynyddol o wasanaethau. Mae staff yn cael eu datblygu'n briodol ac mae trefniadau goruchwylio cadarn ar waith. Mae partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau'n cyfrannu at gynllunio a datblygu gwasanaethau.

63 Mae'r meysydd i'w gwella mewn gwasanaethau plant yn cynnwys gwell cyfranogiad gan eraill mewn adolygiadau gwasanaeth. Mae rhai gwendidau wrth gofnodi ac adrodd ar wybodaeth yn briodol ac mae'n aneglur a yw pobl yn cael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau ataliol. Nid yw gweithwyr cymdeithasol cymwysedig yn cyflawni digon o'r asesiadau cychwynnol ar hyn o bryd. Gellid gwella'r cysylltiadau â gwasanaethau oedolion hefyd, ynghyd â nifer y bobl sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

## A yw'r Cyngor yn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed?

64 Gan fod gwella gofal cymdeithasol wedi bod yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ers blynyddoedd, mae wedi bod yn buddsoddi tua £2 filiwn ychwanegol y flwyddyn yn y pum mlynedd diwethaf, yn enwedig mewn gwasanaethau cymdeithasol oedolion, ac mae'n bwriadu gwneud hynny eto eleni er yr hinsawdd ariannol anodd.

65 Gwasanaethau plant y Cyngor yw un o'r goreuon yng Nghymru o ran ei arweiniad, ei berfformiad a'i werth. Ond er bod ei wasanaethau i oedolion wedi gwella, mae tystiolaeth yn dangos bod angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol sy'n effeithio'n andwyol ar ei allu i drawsnewid ei wasanaethau oedolion. Ond er bod ei wasanaethau oedolion wedi gwella, dengys tystiolaeth bod y Cyngor angen mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol sy'n effeithio'n andwyol ar ei berfformiad wrth drawsnewid ei wasanaethau oedolion. Mae gwasanaethau oedolion wedi gwella mewn rhai meysydd ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf ac mae angen i'r Cyngor barhau i foderneiddio ei wasanaethau a gwella ei berfformiad. Trafodir y mwyafrif o agweddau ar berfformiad y Cyngor wrth gyflawni'r amcan hwn yn y crynodeb o lythyr blynyddol AGGCC yn yr adran flaenorol.

66 Rydym yn credu ei bod hi'n beth da i'r Cyngor gael amcan gwella i ddiogelu plant sy'n agored i niwed, ac oedolion agored i niwed yn arbennig. Mae camau gweithredu arfaethedig y Cyngor i wella'r gwasanaeth i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed, fel y nodwyd yn ei Gynllun Gwella, yn wan.

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Gwasanaethau tai i oedolion ag anghenion iechyd meddwl' a gyhoeddwyd yn Tachwedd 2010, yn rhoi enghraifft o sut mae angen i'r Cyngor wella'i waith rhyngasiantaeth ymhellach rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a thai er mwyn galluogi pobl sy'n agored i niwed gynnal eu tenantiaeth a chymryd camau at fywyd normal.

Cafodd person digartref ag anghenion iechyd meddwl sylweddol denantiaeth ar ôl cael ei dderbyn fel unigolyn yr oedd gan yr awdurdod ddyletswydd i ddarparu cartref iddo. Er i'r Cyngor gydnabod bod y cleient yn agored i niwed, ni chafodd unrhyw gymorth tenantiaeth ei drefnu na'i roi ar waith er bod y swyddogion tai yn ymwybodol o anghenion y cleient a gwaith blaenorol gweithwyr cymdeithasol i helpu'r unigolyn. O ganlyniad i hyn, cafodd y tenant anawsterau'n rheoli'r denantiaeth ac roedd mewn perygl o golli ei gartref, ond ni chafodd ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol ac ni chafodd gysylltiad â nhw i nodi a mynd i'r afael â'i anghenion cymorth.

67 Mae gwelliannau arfaethedig a nodwyd yng Nghynllun Gwella'r Cyngor mewn perthynas â diogelu plant sy'n agored i niwed rywfaint yn gliriach na'r rheiny'n ymwneud â diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Ond mae'r gwelliannau'n canolbwyntio'n bennaf ar brosesau, ac nid yw'r mesurau ar gyfer y camau gweithredu hyn yn dangos sut mae'r Cyngor yn perfformio o gymharu â chynghorau eraill. Collwyd cyfle yma. Mae gwasanaethau plant y Cyngor ymhlith y gorau yng Nghymru mewn perthynas â llawer o'r mesurau hyn. Mae angen i arweinwyr y Cyngor fynd i'r afael â'r achosion sy'n effeithio ar ei berfformiad ym maes diogelu oedolion sy'n agored i niwed a thrawsnewid ei wasanaethau i oedolion.

68 Daeth ein gwaith o asesu'r gwasanaethau i oedolion â phroblemau iechyd meddwl ledled Cymuned Iechyd Hywel Dda i'r casgliad bod cynnydd da wedi'i wneud o ran gwella'r gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ers ein hadolygiad sylfaenol yn 2005. Er hynny, mae'r agenda gwella wedi canolbwyntio gormod ar yr agweddau iechyd ac nid yw wedi adlewyrchu dull system gyfan ehangach. Cyfrannodd yr adroddiad hwn at ein hadroddiad cenedlaethol[4] a oedd yn asesu'r gwasanaethau tai i oedolion ag anghenion iechyd meddwl.

69 Mae Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor yn bwysig i sicrhau bod y bobl sy'n fwyaf agored i niwed yn Sir Gâr yn cael mynediad a chyfle cyfartal. Fodd bynnag, mae'r cynllun hwn yn parhau i fod ar ffurf drafft a bydd angen i'r Cyngor gwblhau'r cynllun yn fuan os yw am gael ei weld fel awdurdod sy'n ymrwymedig i roi cyfle cyfartal i'r bobl hynny sy'n fwyaf agored i niwed.

## A yw'r Cyngor yn cynorthwyo pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl?

70 Rydym yn credu bod cynorthwyo pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl yn amcan gwella priodol i'r Cyngor. Credwn hyn am fod nifer a chyfran y bobl hŷn yn Sir Gâr ar gynnydd, mae'r Cyngor wedi perfformio'n wael iawn yn y gorffennol, ac mae wedi cael problemau meithrin perthynas â'i bartneriaid iechyd yn y gorffennol. Oherwydd hyn, mae hon wedi bod yn un o'i brif flaenoriaethau gwella am nifer o flynyddoedd ac mae'n hyrwyddo tegwch a gwelliannau yn safon y gwasanaethau.

71 Mae rhai o welliannau arfaethedig y Cyngor i gynorthwyo'r amcan hwn yn canolbwyntio mwy ar brosesau yn hytrach na sut bydd y bobl hŷn sy'n byw yn Sir Gâr yn elwa ar y gwelliannau hyn. Nid yw rhai o'r targedau yn ddigon uchelgeisiol. Mae'r anghysondebau yng Nghynllun Gwella'r Cyngor, a amlygwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, yn ei gwneud hi'n anodd gweld yn union beth mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni.

72 Mae perthynas y Cyngor gydag asiantaethau iechyd wedi gwella'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn arwain at rai gwelliannau sylweddol i gynorthwyo pobl hŷn yn well i allu byw bywydau annibynnol. Fodd bynnag, mae yna nifer sylweddol o bobl hŷn, gan gynnwys pobl sy'n agored i niwed, sy'n parhau i aros i gael eu hasesu a chael eu hachosion wedi'u hadolygu, a chan fod y Cyngor wedi dechrau ar lefel perfformio isel, mae'n parhau i fod ymhell y tu ôl i gynghorau eraill yn y maes hwn.

73 Dywedodd ein hadroddiad Asesu Corfforaethol nad yw gwella wedi bod yn hawdd i'r Cyngor. Mae ei strategaeth ar gyfer Datblygu Gwasanaethau Modern i Bobl Hŷn wedi wynebu nifer o heriau gwleidyddol a chyhoeddus. Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwella'n sylweddol o lefel berfformio wael iawn er bod ganddo'r gyfradd arafaf yng Nghymru am drosglwyddo pobl hŷn o'r ysbyty i ofal (DTOC). Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fod yn un o'r rhai sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Mae'r Cyngor yn cynorthwyo 59.7 o bobl 65 oed neu hŷn i fyw yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth, o gymharu â chyfartaledd o 86.7 yng Nghymru a pherfformiad gorau o 107.6. Er bod perfformiad y Cyngor wedi gwella, mae potensial sylweddol i wella o hyd.

4 www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Housing_Mental_Health_welsh_web.pdf

74 Er mwyn cynorthwyo i wella ei berfformiad, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r ail o'i gyfleusterau gofal ychwanegol newydd yn ddiweddar mewn partneriaeth â Thai Gwalia. Mae hefyd wedi sefydlu timau ardal ar y cyd ac wedi gwneud penodiadau ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd Lleol. Mae wedi cyflwyno technoleg teleofal i gynorthwyo pobl i gadw eu hannibynniaeth ac mae'r Cyngor bellach yn monitro bron i 30,000 o gleientiaid ledled pum ardal cyngor yn y Canolbarth a'r Gorllewin, sy'n enghraifft o gydweithio trawsffiniol.

75 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pwyllgor craffu'r Cyngor wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu trawsnewid ei wasanaethau i bobl hŷn a'u helpu i fyw bywydau mwy annibynnol lle y bo'n bosibl. Gwnaethpwyd hyn am fod cynghorwyr yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch newid y gwasanaeth. Gwnaethom nodi yn ein Hasesiad Corfforaethol ei bod hi'n arfer da i bwyllgor craffu gyfrannu at benderfyniadau a pholisïau allweddol, ond bod angen i'r Cyngor sicrhau nad yw hyn yn peri iddo oedi wrth wneud y newidiadau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau modern, yn arbennig i oedolion a phobl hŷn Sir Gâr.

## A yw'r Cyngor yn cyflawni'r rhaglen waith ar gyfer safon tai Sir Gâr?

76 Mae cyflawni'r rhaglen waith ar gyfer safon tai Sir Gâr yn amcan priodol gan ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor ac yn cefnogi gwelliannau yn safon y gwasanaeth. Mae'n rhaid cyflawni safon ansawdd tai Cymru hefyd yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad.

77 Gwelwyd fod nifer o'r mesurau a'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gwella a systemau rheoli perfformiad y Cyngor i gyflawni'r amcan hwn yn llawer ehangach na gwella safon cartrefi'r cyngor a safon y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i'w denantiaid. Er enghraifft, mae'n cynnwys mesurau ar gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth (HMOs). Nid yw'r un o'r meysydd gwaith hyn yn ymwneud yn benodol â gwella safon tai'r cyngor.

78 Nid yw'r amcan gwella a'r camau gweithredu i gefnogi'i gyflawniad wedi'u diffinio'n ddigon clir i ddangos a fydd wedi'u cyflawni neu beidio'r flwyddyn nesaf. Nid yw'r Cynllun ychwaith yn cynnwys gwybodaeth am ei systemau rheoli perfformiad i ddangos sut mae'n cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

79 Yn ein hadroddiad Asesu Corfforaethol, nodwyd mai un o gyraeddiadau arbennig y Cyngor oedd y cynnydd a'r gwaith y mae wedi'i gyflawni hyd yma o ran bwrw ymlaen â chyflawni rhaglen Safon Tai Sir Gâr. Mae hyn yn parhau i fod yn wir, ac mae'r Cyngor ar y llwybr cywir i gyrraedd ei dargedau erbyn 2015 ers iddo gael estyniad i'r amserlen gan Lywodraeth y Cynulliad. Enillodd y Cyngor hefyd wobr gwasanaeth blynyddol 2010 y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus am y fenter tai ac adfywio orau ac mae wedi cyrraedd y rownd derfynol am ei wasanaethau tai yng ngwobrau 2010 Rhagoriaeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fodd bynnag, mae'n cynnig benthyg swm sylweddol o arian i allu gwella'i dai; oddeutu £123 miliwn. Mae hwn yn risg sylweddol i'r Cyngor mewn cyfnod lle mai llai o arian cyhoeddus a rhaid rheoli hyn yn ofalus.

80 Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn perfformio'n dda wrth fynd i'r afael â digartrefedd. Llwyddodd i atal 85 y cant o deuluoedd digartref rhag mynd yn ddigartref am o leiaf 6 mis yn 2009-10, ac roedd llai na hanner o'r rheiny oedd yn ddigartref angen cymorth. Dim ond un teulu digartref oedd angen defnyddio llety gwely a brecwast yn 2009-10.

81 Gwyddom fod yna brinder o dai fforddiadwy yn Sir

Gâr, fel sydd mewn nifer o siroedd eraill yng Nghymru, yn arbennig yn y gorllewin, ond ni allodd y Cyngor sicrhau cymaint o dai fforddiadwy yn ystod 2009-10 ac y gwnaeth yn y flwyddyn flaenorol. Golygodd hyn mai dim ond 16 y cant o unedau newydd ychwanegol a ystyriwyd yn fforddiadwy, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru o 23 y cant. Mae’n bwysig bod y Cyngor yn meithrin perthynas gweithio da gyda chymdeithasau tai er mwyn sicrhau perfformiad gwell a gwelliannau yn y dyfodol. Mae wedi dangos yr angen i ddatblygu mwy o dai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion tai'r sir. Fodd bynnag, gydag arian y Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer adeiladu tai newydd yn gostwng yn y dyfodol, bydd hi’n fwy o her i’r Cyngor gyflawni’r gwelliannau y mae’n bwriadu eu gwneud.

# A yw Cyngor Sir Gâr yn helpu pobl i ddatblygu?

82 Mae canran yr oedolion oedran gweithio heb gymwysterau yn Sir Gâr wedi disgyn yn raddol ers 2001. Roedd yn 15.2 y cant yn 2008 a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.6 y cant. Fodd bynnag, mae cyfran yr oedolion â chymwysterau lefel uwch[5] yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae'r gyfran hon wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 2001.

83 Mae Estyn, arolygyiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn ystyried i ba raddau mae cynghorau'n helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau. Mae'n arolygu ysgolion, colegau addysg bellach a sefydliadau hyfforddi ac yn dyfarnu pa mor dda mae cynghorau'n cynorthwyo'r darparwyr addysg hyn. Mae Estyn yn defnyddio timau rhanbarthol i ddadansoddi gwybodaeth am berfformiad ac i ymweld ag ysgolion. Mae hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chyfarwyddwyr addysg er mwyn ffurfio barn ar rôl y Cyngor ac ar berfformiad addysgol yr ardal. Ceir crynodeb o ganlyniadau arolygiadau Estyn yn y paragraffau isod.

## A yw'r Cyngor yn moderneiddio safon adeiladau ysgolion/gwella safonau addysgol?

84 Mae gwella addysg a'i ysgolion wedi bod yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ers blynyddoedd lawer ac felly mae wedi buddsoddi'n helaeth mewn addysg. Er hynny, nid nid yw'n glir yng Nghynllun Gwella'r Cyngor ai 'moderneiddio safon adeiladau ysgol' neu 'gwella'r ansawdd addysgol' yw'r nod. Yr amcan gwella ar dudalen 8 y Cynllun yw 'moderneiddio safon adeiladau ysgol'. Ar dudalen 42 mae'n dweud mai 'gwella'r ansawdd addysgol' yw'r amcan gwella. Mae'r rhain yn golygu pethau gwahanol iawn. Er bod gwaith ymchwil yn dangos y gall cyfleusterau ysgol gwael gael effaith negyddol ar gyflawniadau disgyblion a myfyrwyr, ni all moderneiddio adeiladau ysgolion sicrhau gwelliant mewn safon addysgol heb gyfraniad sylweddol gan nifer o ffactorau eraill. Felly, mae'n anodd deall beth mae'r Cyngor eisiau ei gyflawni. Dylai'r Cyngor ddiwygio'r amcan hwn a'i gwneud yn fwy eglur fel y gall ddangos bod y mesurau a'r targedau a osodwyd yn briodol ac yn ddigon da i'w gyflawni.

85 Yn gyffredinol, mae perfformiad y Cyngor ym maes addysg yn gymysg. Er bod perfformiad y Cyngor yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 1 yn agos i gyfartaledd Cymru ac wedi gwella'i safle yng Nghymru, nid yw'r perfformiad mor dda ag y gallai fod o gymharu â chynghorau tebyg yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 1, er bod perfformiad Sir Gâr yn agos i gyfartaledd Cymru yn y dangosydd pwnc craidd ac mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth, mae'r ganran sy'n ennill lefel 2 yn is na chyfartaledd Cymru yng Nghymraeg a Saesneg.

86 Yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, mae perfformiad y Cyngor yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer yr holl ddangosyddion. Yng nghyfnod allweddol 2, y Cyngor yw un o'r perfformwyr gwaethaf yng Nghymru. Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2010, nid yw'r perfformiad yn cymharu cystal â chynghorau eraill ledled Cymru. Mae'r canran sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd wedi gwaethygu, tra bo'r ganran ledled Cymru wedi cynyddu, gan greu mwy o fwlch rhwng perfformiad cyfnod allweddol 3 y Cyngor a'r cyfartaledd yng Nghymru.

87 Erbyn cyfnod allweddol 4, lle mae cyrhaeddiad addysgol yn cael ei wirio'n allanol trwy gyfrwng arholiadau, mae'r sefyllfa'n gwella ac mae'r sir yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru, ac mae sgôr pwyntiau ehangach y Cyngor wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2005-06 ac roedd yn

5 Cymwysterau Lefel 4 ac uwch yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol e.e. tystysgrif Addysg Uwch, HND neu Radd.

uwch na chyfartaledd Cymru yn 2008-09. Fodd bynnag, nid yw'r dangosyddion eraill yng nghyfnod allweddol 4 yn perfformio cystal â chynghorau eraill ar drothwy lefel 2. Mae canran y disgyblion sydd wedi rhoi cynnig ar ddwy Lefel A neu fwy ac wedi ennill graddau A-C mewn dwy Lefel A wedi gostwng yn gyffredinol ers 2005-06.

88 Bydd hi'n bwysig i'r Cyngor ddeall pam nad yw ei berfformiad yng nghyfnodau allweddol 1-3 gystal â'i berfformiad yng nghyfnod allweddol 4 a pham fod mwy o fyfyrwyr Lefel A yn cael graddau is.

89 Mae cofnod presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Sir Gâr yn is na chyfartaledd Cymru. Er bod ei berfformiad ar gyfer absenoldebau heb awdurdod yn well na chyfartaledd Cymru, mae nifer y sesiynau hanner diwrnod a gollir yn uwch na chyfartaledd Cymru.

90 Roedd gan ysgolion Sir Gâr gyfanswm o £5.5 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn ym mis Mawrth 2010, gyda £3.6 miliwn o hyn mewn ysgolion cynradd. Roedd gan ysgolion y sir fwy o arian wrth gefn i bob disgybl na chyfartaledd Cymru. Bob blwyddyn, mae nifer o ysgolion yn rhoi mwy o arian i un ochr mewn cronfeydd wrth gefn, ac erbyn hyn, mae gan 53 y cant o'i ysgolion mwy na phump y cant o'u cyllideb mewn cronfeydd wrth gefn, sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae gan 27 y cant o'r ysgolion yma fwy na 10 y cant o'u cyllideb mewn cronfeydd wrth gefn, sydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Er ei fod yn beth doeth i gadw rhywfaint o arian mewn cronfeydd wrth gefn, dylai'r Cyngor weithio gyda'r ysgolion i sicrhau bod y lefelau'n briodol ac nad yw arian y gellid ei ddefnyddio i wella addysg yn cael ei gadw'n ôl yn ddianghenraid.

91 Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn Sir Gâr yn syrthio, sy'n gadael llawer o leoedd gwag mewn ysgolion, ac mae lleoedd gwag yn wastraff o arian y Cyngor. Rhwng 2001 a 2009, mae'r Cyngor wedi buddsoddi £78 miliwn mewn moderneiddio'i adeiladau ysgol a lleihau'r nifer fawr o leoedd ysgol gwag sydd ganddo o gymharu â chynghorau eraill. Er iddo leihau ei leoedd sbâr o 20.7 y cant yn 2008 i 19.8 y cant yn 2009 a'i fod yn un o'r ychydig gynghorau sydd wedi dangos rhywfaint o welliant yn y cyfnod hwn, erbyn 2010 roedd canran y lleoedd sbâr wedi codi i 20.7 y cant eto, sydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae ganddo lawer mwy o leoedd ysgol sbâr i gael gwared arnynt, yn arbennig mewn ysgolion cynradd, o gymharu â'r rhan helaeth o gynghorau eraill yng Nghymru. Mae'r Cyngor nawr yn amcangyfrif bod angen £330 miliwn arall i gwblhau ei raglen i foderneiddio addysg.

92 Erbyn 2009 roedd y Cyngor wedi dileu 750 o leoedd ysgol sbâr mewn ysgolion cynradd a 552 mewn ysgolion uwchradd trwy gael gwared â'r lleoedd ysgol sbâr, gan uno ysgolion mewn adeiladau ysgol cyfredol neu mewn rhai newydd. Roedd wedi gostwng nifer yr ysgolion cynradd o 133 i 115, wedi cau dwy ysgol uwchradd ac wedi adeiladu pum ysgol gynradd newydd ac un ysgol uwchradd newydd. Mae'r Cyngor wedi gwario bron i £78 miliwn ar adeiladau ysgolion rhwng 2001 a 2009, gyda mwy na hanner yr arian wedi dod o arian y Cyngor, yn arbennig trwy fenthyca darbodus. Gan fod yna lai o blant ysgol gynradd bob blwyddyn, mae mwy na 5,000 o leoedd ysgol gynradd yn parhau (28 y cant) sydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Yn 2010, roedd nifer sylweddol o leoedd sbâr mewn dros hanner yr holl ysgolion cynradd a 36 o 60 ysgol fach. Nid yw 13 o 14 adeilad ysgol uwchradd a 95 o 115 adeilad ysgol gynradd yn addas i'r diben eto ac mae 91 dosbarth mewn adeiladau dros dro.

93 Dyfarnodd arolygiad mwyaf diweddar Estyn yn 2009 fod gan wasanaethau addysg y Cyngor nodweddion da ym mhob maes a arolygwyd, a oedd yn fwy na'r diffygion, ac roedd ei ragolygon ar gyfer gwella'n dda, heb unrhyw rwystrau sylweddol. Fodd bynnag, rhoddodd yr arolygiaeth radd isel i'r Cyngor am y ffordd yr oedd yn mynd i'r afael â'i ormodedd o leoedd ysgol, gan ddangos pryder ynghylch safon gwasanaethau cymorth eiddo i ysgolion.

94 Ers hyn, mae'r Cyngor wedi adolygu ei raglen Moderneiddio Darpariaeth Addysgol. Amcangyfrifir bod angen £330 miliwn o hyd, yn ogystal â'r £78 miliwn a wariwyd eisoes. Mae wedi sicrhau bod y rhaglen Moderneiddio Darpariaeth Addysgol yn canolbwyntio mwy ar addysg a chymuned yn hytrach nag adeiladau'n unig ac mae'r adolygiad hwn wedi rhoi sylfaen dda i'r Cyngor adeiladu arni. Mae Cynghorwyr ar draws pob grŵp gwleidyddol yn ymrwymedig i'r rhaglen. Byddai cynlluniau'r Cyngor yn y dyfodol i leihau nifer yr ysgolion yn arbed swm enfawr o arian i'r Cyngor. Mae safon y wybodaeth am gyflwr ac addasrwydd ysgolion a'r costau i wneud pob ysgol yn addas i'r diben wedi gwella'n sylweddol ers adroddiad Estyn. Mae'r prosesau ar gyfer nodi'r camau gweithredu i bob ysgol yn rhesymegol ac yn drwyadl ac mae yna feini prawf clir wedi'u nodi a'u cytuno â'r ysgolion ac fe ddefnyddiwyd y rhain wrth lunio cynigion ar gyfer y dyfodol. Mae gwasanaethau eiddo wedi gweithio gydag ysgolion i nodi cyfrifoldebau clir i ysgolion a'r Cyngor.

95 Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y Cynulliad ynghylch ariannu'r gwaith ad-drefnu hwn ac mae yna achos busnes yn cael ei gyflwyno i gael arian trwy'r rhaglen Drawsnewid. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion hyn ym mis Mehefin 2010, a chyflwynwyd y cynigion i'r Cyngor yr hydref hwn yn barod ar gyfer cyflwyno'r ceisiadau ar gyfer rownd nesaf yr arian cyfalaf o'r Cynulliad ym mis Mawrth 2011.

# A yw Cyngor Sir Gâr yn helpu i greu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo?

96 Yn 2009, enillion wythnosol Sir Gâr oedd £501 ar gyfartaledd, a oedd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

97 Ym mis Gorffennaf 2010, roedd 2.9 y cant, neu 3,200 o drigolion y boblogaeth oedran gweithio yn hawlio'r Lwfans Ceiswyr Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol. Cyfartaledd Cymru oedd 3.6 y cant. Rhwng 2001 a 2007 mae'r gyfradd gyflogaeth wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan ac fe symudodd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2008.

98 Yn 2008-09 roedd cyfran y ffyrdd 'A' yn Sir Gâr a oedd mewn cyflwr gwael yn eithaf tebyg i Gymru gyfan. Roedd cyfradd y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac ymhlith yr uchaf o bob un o 22 o gynghorau Cymru. Mae cyfradd glendid y priffyrdd a'r tir perthnasol yn Sir Gâr wedi gwella i fod yn un o'r cyfraddau uchaf o holl gynghorau Cymru.

99 Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â Heddlu Dyfed Powys a gwasanaethau eraill er mwyn ceisio canfod sut i gadw Sir Gâr yn ddiogel. Mae gan y sir un o'r cyfraddau troseddau isaf yng Nghymru, sef tua hanner cyfartaledd Cymru.

100 Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â sefydliadau eraill fel y sector gwirfoddol er mwyn deall materion sy'n achosi problemau mewn ardaloedd lleol ac i adeiladu cymunedau cryfach, gan gynnwys sut i ddiogelu'r amgylchedd yn well a'i wneud yn gynaliadwy, a sut i adfywio'r sir. Mae rhywfaint o'r wybodaeth hon wedi'i seilio ar ystadegau ynghylch nifer y troseddau a'r cwynion a adroddwyd i'r Heddlu ac i'r Cyngor, neu'r peryglon y mae'n ei wynebu rhag bygythiadau fel llifogydd neu drychinebau eraill. Mae rhywfaint ohoni'n ymwneud â pha mor ddiogel y mae pobl yn teimlo. Mae nifer o'r materion hyn yn gymhleth ac felly rhaid mynd i'r afael â nhw mewn partneriaeth ag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill.

## A yw'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni sir carbon niwtral a gwella effeithiolrwydd ynni?

101 Gall y Cyngor gyfiawnhau gweithio tuag at sir carbon niwtral a gwella effeithlonrwydd ynni gan ei fod yn cyfrannu at gynaliadwyedd ein planed ac i ofynion byd-eang a chenedlaethol i wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r amcan gwella hwn yn anodd ei ddeall. Mae rhai o'r mesurau'n haws i'w deall nag eraill, ond mae rhai'n eithaf amwys ac nid ydynt yn canolbwyntio ar ddangos sut bydd pobl leol yn elwa. Mae rhai o'r mesurau yn y Cynllun sy'n ymwneud â helpu'r sir i ddod yn garbon niwtral wedi'u hepgor o'r amcan, ac nid oes unrhyw wybodaeth i ddangos sut mae'r Cyngor yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru. Collwyd cyfle yma i ddangos i'r cyhoedd mai'r Cyngor yw un o'r rhai sy'n perfformio orau yng Nghymru ar y materion hyn, ond nid yw'r Cynllun yn gwneud cyfiawnder â'r Cyngor.

102 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno camau gweithredu synhwyrol i leihau ei ôl-troed carbon, gyda'r mwyafrif o'r camau'n ymwneud â gwella'r ffordd y mae'n defnyddio ynni. Mae'r rheswm ariannol dros wneud hyn yn amlwg, gyda'r Cyngor yn nodi y gallai'r gost ynni cyfredol o £3.5 miliwn y flwyddyn gynyddu 50 y cant. Gan fod y Cyngor wedi canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni ers blynyddoedd maith, mae llawer wedi'i wneud eisoes i leihau faint o ynni a ddefnyddir sydd eisoes wedi lleihau ôl-troed carbon y Cyngor.

103 Mae'r Cyngor yn barod i ddechrau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon yn 2011, a fydd yn mesur y gostyngiadau a wneir mewn allyriadau carbon o 2011 ymlaen, ond yn anffodus, golyga hyn na fydd y cynnydd da a gyflawnwyd gan y Cyngor eisoes yn cael ei ystyried.

104 Mae enghreifftiau o arferion da'n cynnwys defnyddio SALIX Finance[6] fel benthyciadau'r Ymddiriedolaeth Garbon o bron i £1 miliwn i ariannu'r gwaith o inswleiddio a rheoli gwres yn adeiladau'r cyngor. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi cynnig ar arbrawf gwahanol i leihau foltedd y prif gyflenwad sy'n dangos y gallai arbed 15 y cant o ynni. Mae gan y Cyngor dros 1,000 o adeiladau ac mae wedi targedu'r 20 sy'n defnyddio'r swm mwyaf o ynni, gan gynnwys rhai ysgolion, canolfannau hamdden ac adeiladau mwy o faint y cyngor ar gyfer sicrhau arbedion ynni.

105 Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid, trwy'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol, ar faterion newid yn yr hinsawdd er mwyn gweithio tuag at fod yn sir carbon niwtral. Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar brosiectau yn y gymuned, ac ar hyrwyddo Sir Gâr fel sir 'werdd'. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i addasu a pharatoi ar gyfer newidiadau anochel yn yr hinsawdd.

106 Mae cynaliadwyedd, sy'n cynnwys rheoli carbon, yn un o egwyddorion canolog Bwrdd Gwasanaeth Lleol y sir. Y Cyngor yw un o'r unig ddau sefydliad yng Nghymru i ennill Gwobr Platinwm y Safon Iechyd Corfforaethol, sef gwobr gan Lywodraeth y Cynulliad am gynaliadwyedd a hyrwyddo iechyd da.

## A oes gan y Cyngor ymateb cadarn i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni trwy gefnogi busnesau a sicrhau bod y rheini sydd â'r angen mwyaf yn derbyn eu hawliau cywir?

107 Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r angen i ddod o hyd i arbedion yn cyfiawnhau bod gan y Cyngor amcan gwella i ddatblygu ymatebion priodol. Ond mae'r Cynllun yn diffinio'r amcan gwella hwn yn wahanol mewn gwahanol rannau o'r Cynllun. Hefyd, mae yna anghysondeb rhwng y mesurau ar gyfer yr amcan gwella hwn sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun a'r rheini sy'n cael eu cynnwys yn systemau rheoli perfformiad y Cyngor. Nid yw'r Cynllun yn cynnwys mesurau'n ymwneud â 'sicrhau bod y rheini sydd â'r angen mwyaf yn derbyn eu hawliau cywir', er bod mesurau'n ymwneud â'r amcan hwn yn ymddangos yn systemau rheoli perfformiad y Cyngor.

108 Mae dull y Cyngor o ymdrin ag adfywio wedi hen ennill ei blwyf a dylai hyn ei roi mewn sefyllfa gref i fynd i'r afael ag effeithiau gwaethaf y dirwasgiad. Mae wedi bod yn effeithiol wrth gynorthwyo i gyflawni sawl datblygiad adfywio newydd sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys: ardal siopa fawr ym Mharc Trostre, Llanelli; creu Rhodfa'r Santes Catrin, sef ardal siopa newydd yng nghanol Caerfyrddin; a gwell cyfleusterau hamdden ym Mharc y Scarlets a chae ras Ffos Las. Mae wedi nodi mai ei brif flaenoriaeth yw cefnogi gweithgarwch busnes er mwyn sicrhau bod swyddi'n cael eu creu neu eu hachub o leiaf, gan helpu i gynnal safon byw dda ar gyfer ei drigolion. Mae'r Cyngor yn hyderus bod y prosiectau adfywio a nodir yn ei gynlluniau yn briodol i helpu'r sir i ymdopi â'r dirwasgiad.

6 Mae SALIX Finance yn darparu cyllid di-log i sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y DU i fuddsoddi mewn technolegau arbed ynni.

109 Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid, gan gynnwys sefydliadau busnes, cyrff sector gwirfoddol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill o fewn y sir a thu hwnt. Mae hefyd yn gweithio ar y cyd gyda'i bartneriaid i ddarparu nifer o brosiectau adfywio, gan gynnwys rhai sy'n darparu cymorth i fusnesau cyfredol a datblygiadau busnes newydd, er enghraifft, y gronfa fuddsoddi leol gyda 1,900 o grantiau o hyd at £5,000 ar gael i fusnesau lleol. Mae menter leol yn cynghori busnesau ar sut i gyflenwi gwasanaethau'r cyngor a sicrhau eu bod yn cael eu talu'n brydlon. Hefyd, mae benthyciadau ar gael i helpu busnesau bach trwy gyfnodau anodd. Mae cynllun gwerth £5.5 miliwn yn annog y Cyngor i weithio ochr yn ochr â'r sector gwirfoddol yn y de-orllewin i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol.

110 Er ei fod yn gallu dangos bod rhai o'i brosiectau wedi cefnogi busnesau, creu swyddi ac adfywio trefi, nid yw'r Cyngor yn glir ynglŷn â pha effaith mae'r mentrau hyn yn ei chael ar bobl a chymunedau Sir Gâr ac i ba raddau maent yn elwa. Mae'r Cyngor wedi dechrau meddwl am sut y gall wneud hyn.

111 Mae'r Cyngor wedi neilltuo cyfanswm o £90 miliwn ar gyfer gwahanol ddatblygiadau, gan gynnwys safle cyflogaeth, gwelliannau canol tref a theatr newydd yn Llanelli. Fodd bynnag, oherwydd y problemau ariannol byd-eang, mae'n debygol y bydd hi'n anoddach fyth i'r Cyngor gael gafael ar gyllid cyhoeddus ar gyfer ei brosiectau adfywio mawr dros y blynyddoedd nesaf.

## A yw gwasanaethau eraill y Cyngor yn creu lle diogel, ffyniannus a phleserus i fyw ynddo?

112 Mae gwasanaethau gwastraff y Cyngor yn effeithlon, yn boblogaidd ac yn helpu i wneud Sir Gâr yn lle mwy dymunol. Gan ei fod yn cydnabod y bydd yn anoddach iddo gyflawni ei dargedau gwastraff ac ailgylchu yn y dyfodol, mae'n gweithio gyda chynghorau eraill i ddod o hyd i ateb. Hefyd, efallai y bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd denu cyllid yn y dyfodol ar gyfer ei ddull cyfredol o gasglu deunydd ailgylchadwy ar garreg y drws, gan ei gwneud hi'n anodd parhau i ddefnyddio'r dull hwnnw. Bydd angen dull tymor hir strategol.

113 Mae gan y Cyngor hanes o ddarparu gwasanaethau rheoli gwastraff da. Cynhyrchodd y sir ddau y cant yn llai o wastraff yn 2009-10 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2008-09, perfformiodd y Cyngor yn dda o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi ac, yn 2009-10, roedd yn ailgylchu a chompostio 40 y cant o'i wastraff, sef tua'r ffigur cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r targed o ailgylchu a chompostio 52 y cant o'i wastraff erbyn 2013, mae angen iddo annog llawer mwy o bobl i ailgylchu eu gwastraff. Mae'r gwasanaeth o'r farn bod hyn yn bosibl ac mae wedi paratoi cynllun, ond dim ond tan 2014. Er mwyn cyflawni targedau ar ôl 2013-14, mae angen seilwaith trin gwastraff. Yn arbennig, heb y seilwaith hwn, mae'n debygol y bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd gwella ar y ffigurau hyn a chyflawni targedau yn y dyfodol.

114 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau cyfagos yng Nghyd-bwyllgor Rhanbarthol y De-orllewin i sicrhau ei fod yn gallu trin gwastraff gweddilliol ar ôl 2013, ond ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio sicrhau ei fod yn gallu trin gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol trwy'r cydweithrediad hwn. Mae'r cydweithrediad wedi wynebu sawl her hyd yn hyn ond mae bellach yn gwneud cynnydd yn sgil caffael gallu trin gwastraff bwyd ac mae wrthi'n penderfynu beth sydd ei angen i drin gwastraff gweddilliol.

115 Mae gwasanaeth atal llifogydd a diogelu arfordir y Cyngor yn rheoli'r perygl o erydiad yn effeithiol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn llai parod i ddelio â heriau'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, fel tywydd mwy difrifol a lefel y môr yn codi. Mae'r galw am y gwasanaeth hwn yn cynyddu wrth i'r Cyngor weithio gydag eraill i baratoi cynlluniau i reoli risgiau llifogydd a helpu trigolion i addasu a gallu gwrthsefyll erydiad a llifogydd yn well.

116 Mae'r gwasanaeth Cynllunio yn gwneud cyfraniad allweddol at gyflawni sawl un o amcanion gwella'r Cyngor. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn perfformio'n dda o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru o ran prosesu ceisiadau cynllunio ac mae wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol (LDP).

117 Sir Gâr yw un o'r siroedd mwyaf diogel yng Nghymru ac mae'r Cyngor yn gweithio'n dda gyda'r Heddlu a phartneriaid eraill i wella'r sefyllfa ymhellach. Mae cadw Sir Gâr yn ddiogel yn bwysig i'r Cyngor a'i bartneriaid ac maent yn bwriadu gwneud nifer o welliannau pellach dros y flwyddyn nesaf. Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ei gynllun gwella, ond nid yw'n dangos pa mor dda mae Sir Gâr yn perfformio o gymharu â siroedd eraill o ran cadw'r sir yn ddiogel. Mae ei wasanaeth troseddau ieuenctid yn well na'r gwasanaeth cyfartalog yng Nghymru a Lloegr, sy'n helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn aildroseddu.

118 Er bod angen i'r Gwasanaeth Atal Troseddau Ieuenctid (YOPS) sicrhau bod Perygl o Niwed i eraill yn cael mwy o sylw yn y cyfnodau asesu a chynllunio, nododd yr arolygiad hwn fod llawer o waith da yn cael ei gyflawni.

# Beth ddylai Cyngor Sir Gâr ei wneud?

119 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na fyddem yn dod o hyd i bethau sydd angen eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad y dylent ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os ydym yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddynt fynd i'r afael â nhw a byddwn yn dilyn yr hyn sy'n digwydd.

120 Yn dilyn ein gwaith, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol ond dylai'r Cyngor ystyried ein cynigion canlynol i'w helpu i wella:

**Cynigion a wnaed yn ein hadroddiad ar yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol (Gorffennaf 2010)**

1 Dylai'r Cyngor ystyried lleihau nifer y pwyllgorau craffu i wella eu heffeithiolrwydd.

2 Mae angen i'r Cyngor cyfan sicrhau ei fod yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar gynllun ariannol ymarferol ar gyfer y tymor canolig.

3 Dylai'r Cyngor barhau i ddatblygu dull gwella sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau i ddangos y cyfraniad mae ei brosiectau, ei gynlluniau a'i gamau gweithredu yn ei wneud at wella bywydau pobl Sir Gâr.
Wrth wneud hynny, gallai'r Cyngor elwa ar:

- atgyfnerthu a gwerthuso'r data gwella a gesglir i ddangos i ba raddau y mae'n cyflawni canlyniadau gwell;
- adolygu a herio ei gamau gweithredu, ei fesurau a'i dargedau ar gyfer gwella i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn effeithiol; ac
- darparu cysylltiadau cliriach rhwng ei gamau gweithredu allweddol a'r canlyniadau a'r mesurau perfformiad y mae'n ceisio eu cyflawni.

4 Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau rheoli grantiau i sicrhau eu bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau ac i leihau'r perygl y bydd cyllid yn cael ei adfachu.

**Cynigion newydd ar gyfer gwella**

- Bydd angen i'r Cyngor gyhoeddi ei amcanion gwella yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yn llawer cynt y flwyddyn nesaf;
- dylai'r Cyngor adolygu ei gynlluniau gwella er mwyn sicrhau y cytunir ar gynllun clir a chyson sydd wedyn yn cael ei gyfleu i gynghorwyr, staff a'r cyhoedd;
- fel rhan o'r broses bydd angen i'r Cyngor:
  - wneud yr amcanion gwella'n gliriach;
  - cywiro'r anghysondebau rhwng y mesurau a ddefnyddir yn y Cynllun a'r rheini a ddefnyddir yn systemau rheoli perfformiad y Cyngor i fesur cyrhaeddiad yr amcanion gwella; a
  - sicrhau bod y fersiwn cywir o'r Cynllun ar wefan y Cyngor.

# Atodiad 1

## Gwybodaeth am Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r adroddiad hwn

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cael ei benodi gan Ei Mawrhydi Y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol am waith Swyddfa Archwilio Cymru a rheolaeth ariannol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu'r Archwilydd Cyffredinol drwy archwilio amryw o agweddau ar sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio. Crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2005 drwy uno'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned.

Yn ogystal ag ymgymryd ag archwilio ariannol, rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw edrych ar sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian y cyhoedd, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddeddf a greodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi ymestyn pwerau'r Archwilydd Cyffredinol i ddilyn y 'bunt gyhoeddus' ble bynnag mae'n mynd.

**Yr adroddiad hwn**

Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 gyfrifoldebau newydd i'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyfrifoldeb i gyhoeddi ei asesiad o drefniadau pob cyngor/awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, sef; cyhoeddi adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal archwiliad o dan adran 17 ac asesiad gwella o dan adran 18.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau'. Diffinnir Awdurdodau Gwella fel cyngor lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau[7].

7 Cynhelir yr asesiad hwn ar gyfer pob awdurdod gwella, o dan adran 18 o'r Mesur. Bydd yn penderfynu a yw pob awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal archwiliad o wybodaeth am welliannau a chynllunio ar gyfer gwella, fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o'r Mesur, er mwyn penderfynu a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(1) i (7).

Bydd hyn yn cael ei lywio gan:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus; ac
- Asesiad o Berfformiad – asesiad ôl-weithredol i weld a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llywio barn ar sut y llwyddodd yr awdurdod i wella.

Cyhoeddir canlyniad(au) yr asesiadau hyn gan yr Archwilydd Cyffredinol fel Adroddiad(au) Archwilio ac Asesu, o dan adran 19 o'r Mesur. Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 19, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ardystio ein bod wedi cynnal archwiliad adran 17 ac asesiad gwella adran 18.

Dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal Arolygiadau Arbennig (o dan adran 21), a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, gan ei gyhoeddi o bosibl (o dan adran 22).

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi Adroddiadau Archwilio ac Asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn a gyhoeddir (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau o Arolygiadau Arbennig.

Gweithgaredd ategol pwysig i Swyddfa Archwilio Cymru yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol holl reoleiddwyr perthnasol awdurdod gwella. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried gwybodaeth sy'n cael ei rhannu gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau a bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi unrhyw waith y maent yn ymgymryd ag ef ac yn disgrifio i ba raddau mae wedi gwneud hynny.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn pennu'r ffi ar gyfer gwaith archwilio perfformiad y mae'n ymgymryd ag ef er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur ym mhob awdurdod lleol mewn Rhaglen Rheoleiddio y cytunir arni bob blwyddyn gyda'r awdurdod. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y ffi ar gyfer mis Tachwedd 2009 tan fis Mawrth 2011 yr un fath â'r ffi a nodir yn y Rhaglen Rheoleiddio.

# Atodiad 2

## Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gâr a Chyngor Sir Gâr

Yn 2008-09, daeth gwariant refeniw gros yr Awdurdod i £389 miliwn, sef £2,153 i bob preswylydd. Yn ystod y flwyddyn honno, gwariodd yr Awdurdod £103 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

£1,111.05 y flwyddyn oedd y dreth gyngor band D gyfartalog yn Sir Gâr yn 2009-10. Bydd yn codi 3.03 y cant i £1,144.76 y flwyddyn yn 2010-11. Mae 76 y cant o dai Sir Gâr yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Y Cyngor yw un o'r cyflogwyr mwyaf o ran maint ac amrywiaeth yn y De-orllewin, ac mae'n cyflogi dros 9,000 o weithwyr cyflogedig sy'n darparu gwasanaethau ledled sir wledig i boblogaeth o tua 180,500.

Aelodau Cynulliad Sir Gâr yw:

- Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Ceidwadwyr
- Helen Mary Jones, Llanelli, Plaid Cymru

Aelodau Seneddol Sir Gâr yw:

- Jonathan Edwards, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Ceidwadwyr
- Nia Griffiths, Llanelli, Llafur

Mae yna 74 o gynghorwyr ar gyfer Sir Gâr sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 32 Annibynnol
- 11 Llafur
- 30 Plaid Cymru
- 1 Democratiaid Rhyddfrydol

Mae'r Cyngor yn cael ei reoli gan 74 o gynghorwyr etholedig o amrywiaeth o bleidiau gwleidyddol.

Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am fusnes cyffredinol y Cyngor.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys Arweinydd y Cyngor, sef y Cadeirydd, a hyd at naw o aelodau eraill a benodwyd gan y Cyngor.

Mae gan bob un o aelodau'r Bwrdd Gweithredol bortffolio diffiniedig o gyfrifoldebau:

- Y Cynghorydd M. Gravell - Arweinydd
- Y Cynghorydd W.J.W. Evans – Dirprwy Arweinydd, Cyllid
- Y Cynghorydd K Madge – Dirprwy Arweinydd, Ffocws Cwsmeriaid a Lles Cymunedol
- Y Cynghorydd M.H. Evans – Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Y Cynghorydd P.M. Hughes – Rheoli a Diogelu Pobl
- Y Cynghorydd P.E.M. Jones – Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Cynghorydd P.A. Palmer – Rheolwr Busnes
- Y Cynghorydd H.C. Scourfield - Adfywio
- Y Cynghorydd G.H. Woolridge – Addysg a Gwasanaethau Plant

Y bobl hyn sy'n gwneud penderfyniadau a chytuno ar bolisïau a blaenoriaethau gwario'r Cyngor.

Tîm Rheoli Corfforaethol:

Mae'r Cyngor yn cynnwys chwe Chyfarwyddwr ac adran:

- Prif Weithredwr: Mark James
- Addysg a Gwasanaethau Plant: Robert Sully
- Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Bruce McLernon
- Gwasanaethau Technegol: Richard Workman
- Adfywio a Hamdden: David Gilbert
- Adnoddau: Roger Jones

# Atodiad 3

## Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol

Nodir isod brif gasgliadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Cygor ym mis Gorffennaf 2010:

**Casgliad cyffredinol**

Mae trefniadau ac arweinyddiaeth gref y Cyngor yn golygu ei fod mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu gwelliannau yn y dyfodol os bydd y Cyngor yn gyffredinol yn canolbwyntio ar ba ganlyniadau gwell y gall eu darparu ar gyfer pobl Sir Gâr o fewn adnoddau cyfyngedig.

**Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser**

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n gryf ar welliant ac mae'n paratoi'n dda ar gyfer yr amserau anodd i ddod, gan gydnabod y bydd angen canolbwyntio ar ganlyniadau a bod yn realistig ledled y cyngor i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

- mae arweinyddiaeth gref, uchelgeisiol a gweladwy'r Cyngor wedi sicrhau bod penderfyniadau anodd yn cael eu gwneud ac wedi sicrhau cyraeddiadau arwyddocaol mewn rhai meysydd;
- mae'r Cyngor yn gwella'n raddol gyda rhai trefniadau wedi hen sefydlu ac mae'n parhau i gryfhau eraill i sicrhau gwelliannau ac effeithlonrwydd yn y dyfodol;
- mewn hinsawdd ariannol llawn her, mae gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol yn dibynnu ar a fydd y Cyngor cyfan yn canolbwyntio'n realistig ar ddarparu canlyniadau gwell i bobl Sir Gâr.

**Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella**

Mae'r Cyngor yn dangos cryfderau arbennig o ran arwain a chydweithio ar ddulliau gwella, ond nid yw ei waith rheoli ystadau a phobl yn effeithiol bob amser.

Mae'r Cyngor yn cael ei arwain mewn ffordd gref a chreadigol a'i gefnogi gan reolaeth ariannol gadarn ac agwedd ymroddedig at gydweithio.

Mae gwaith y Cyngor o ddatblygu strategaeth a pholisi yn drefnus ac yn seiliedig ar ddata cadarn, ond nid yw'n dangos sut mae'r rhain yn darparu canlyniadau gwell i ddinasyddion.

Nid yw gwaith y Cyngor o reoli pobl ac ystadau'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion yn ddigonol eto.

I weld yr adroddiad llawn ewch i'n gwefan yn www.wao.gov.uk.

# Atodiad 4

## Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig at Aelodau Cyngor Sir Gâr

Mae Mesur Llywodraeth Leol 2009 wedi rhoi cyfle i Swyddfa Archwilio Cymru ailfeddwl sut i adrodd am ganfyddiadau'r archwiliad ariannol a gwaith archwilio perfformiad i gyrff llywodraeth leol. Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol (AIR) i bob awdurdod lleol yn fuan a bydd llawer o'r materion a oedd yn cael eu nodi'n draddodiadol yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi manteisio ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig (y cyfrifon, y casgliad gwerth am arian a'r archwiliad o'r cynllun gwella) yn y llythyr byr hwn sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol.

Nod y llythyr hwn yw bod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol, felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio (y Cod).

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a
- chyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref.

Mae'r Cod yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd , effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- ystyried a yw'r Cynllun wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion statudol; a
- chyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2010 cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, yn cadarnhau eu bod yn adlewyrchiad cywir a theg o drafodion ariannol y Cyngor a Chronfa Bensiwn Dyfed. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Nodwyd y materion canlynol yn ystod yr archwiliad o gyfrifon y Cyngor:

- fel yr adroddwyd y llynedd, mae'r system ar gyfer cyfrifyddu cyfalaf ac asedau sefydlog yn gofyn am welliant sylweddol; ac

- er bod y broses o baratoi'r datganiadau cyfrifyddu wedi parhau i wella, gan arwain at ddatganiadau drafft o safon uchel a gefnogir gan bapurau gwaith cynhwysfawr, mae hi'n dal yn bosibl gwneud gwelliannau pellach mewn rhai meysydd, yn enwedig mewn perthynas â chyfrifyddu cyfalaf ac asedau sefydlog.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd , effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar archwilio'r cyfrifon a'r gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Mesur. Bydd prif ganfyddiadau'r gwaith olaf yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Yn ogystal, rwy'n tynnu'ch sylw at y materion canlynol – mae trefniadau effeithiol i reoli'r gyllideb ar waith ac mae cynlluniau ariannol tymor canolig wedi datblygu'n dda, ond mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol yn y dyfodol. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cyfeirio ymhellach at hyn.

Yn olaf, y llynedd adroddais fod angen i'r Cyngor wella ei waith rheoli prosiectau grant trwy sicrhau:

- dull corfforaethol cytunedig o reoli prosiectau;
- bod gan reolwyr prosiect y sgiliau sy'n ofynnol i reoli'r cynlluniau grant;
- bod systemau ar waith i fonitro perfformiad rheolwyr prosiect; a
- bod rheolwyr prosiect yn atebol am berfformiad gwael.

Adroddais hefyd fod angen gwella trefniadau i gasglu, cofnodi a monitro grantiau. Bydd gwaith archwilio'n parhau yn ystod gweddill 2010 i asesu a yw trefniadau grant y Cyngor wedi gwella. Byddaf yn cyflwyno fy nghanfyddiadau i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor yn gynnar yn 2011.

Mae Cynllun Gwella 2010-11 y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion statudol ac yn rhoi golwg gytbwys o'i berfformiad yn 2009-10.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2010.

Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2009-10 yr un fath â'r ffi a nodir yn y Strategaeth Archwilio Ariannol.



Ceri Stradling
Archwilydd Penodedig
30 Tachwedd 2010

# Atodiad 5

## Amcanion gwella Cyngor Sir Gâr

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei amcanion gwella yn ei Gynllun Gwella sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.sirgaerfyrddin.gov.uk/cymraeg/cyngorademocratiaeth/perfformiadycyngor/Documents/Gwella%20ein%20ffordd%20o%20fyw%20a%20gweithio.pdf

Amlinellir y saith amcan gwella ar dudalennau 8 a 9 o'r Cynllun Gwella isod, ond maent yn wahanol i'r rhai a amlinellir yn ddiweddarach yn y Cynllun:

- gweithio gyda'n partneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau ac arbed arian;
- cydweithio i wella iechyd a lles pobl Sir Gâr a chanolbwyntio yn ystod 2010-11 ar sicrhau cynnydd o ran gwella ansawdd tai drwy gyflawni'r rhaglen waith ar gyfer Safon Tai Sir Gâr;
- byddwn yn parhau i ddiogelu ein hoedolion a'n plant sy'n agored i niwed;
- byddwn yn cefnogi pobl hŷn i chwarae eu rhan ym mywyd ein cymunedau a'u helpu i fyw bywydau annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, lle bynnag y bo modd;
- gweithio tuag at lwyddo i fod yn sir sy'n niwtral o ran carbon a gwella effeithlonrwydd ynni;
- ymateb yn gadarn i'r hinsawdd economaidd drwy gefnogi busnesau a sicrhau bod y rhai mwyaf anghenus yn hawlio'r holl hawliadau y maent yn gymwys i'w cael; a
- moderneiddio safon adeiladau ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r unfed ganrif ar hugain a bod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau'n addas i'r gymuned a wasanaethir ganddynt.

# Atodiad 6

## Cyfeiriadau

Daw'r holl ddata y cyfeirir ato yn yr adroddiad o un o'r ffynonellau canlynol oni nodir yn wahanol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, StatsCymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystadegau cryno ardaloedd lleol
- Gwefan a chynlluniau gwella'r Awdurdod ei hun
- The Wales Yearbook
- Y Swyddfa Gartref
- Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol